# Diogelwch Ocsigen Hylifol



Nod y Gwasanaeth Ocsigen yn y Cartref yw rhoi cyfarpar ocsigen i chi i ddiwallu eich anghenion gartref. Mae eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi gofyn i Baywater Healthcare ddanfon ocsigen hylifol ar eich rhan.

Nwy ocsigen sydd wedi rhewi yw Ocsigen Hylifol. Pan fydd y nwy ocsigen wedi rhewi, bydd yn troi'n hylif.

Mae dwy ran i'r ocsigen hylifol, sef tanc a fflasg. Mae'r fflasgiau'n cael eu llenwi'n uniongyrchol o'r tanc, sy'n eich galluogi chi i ddefnyddio'r ocsigen mewn ffordd gludadwy.

Mae'n rhaid i Baywater Healthcare ddilyn gofynion diogelwch wrth osod ocsigen hylifol yn eich cartref neu mewn lleoliad arall. Mae disgwyl i Dechnegwyr Gofal Iechyd gwblhau asesiad risg o'r cyfeiriad lle bydd yr ocsigen hylifol yn cael ei storio. Bydd hyn yn cael ei wneud er eich diogelwch chi, er diogelwch pobl eraill yn yr eiddo, ac er diogelwch y rheini mewn eiddo cyfagos. Os bydd risgiau'n cael eu canfod, ac nad ydynt yn bodloni canllawiau diogelwch cenedlaethol, mae'n bosibl na fydd ocsigen hylifol yn cael ei osod, neu gellid tynnu'r ocsigen. Bydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cael gwybod os bydd hyn yn digwydd.

baywater HEALTHCARE



Mae angen storio tanciau o dan orchudd. Lleoliad perffaith fyddai tai allan fel sied, lle gellir agor y drws i ganiatáu llif aer, os bydd niwl yn cael ei ryddhau o'r tanc. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r tai allan fod yn sownd i'r prif adeilad.

Ni fydd Baywater Healthcare yn gosod ocsigen hylifol mewn lleoliad lle mae modd taflu eitemau fflamadwy, sigaréts neu dân gwyllt drwy ffenestr neu lle mae'r ocsigen hylifol yn cael ei storio.






Er mwyn sicrhau eich diogelwch chi, ni fydd Baywater Healthcare yn gosod ocsigen hylifol mewn ystafell sy'n cynnwys dodrefn meddal neu babell rhag ofn y bydd y niwl yn llenwi'r deunydd, neu os bydd tân.

Os caiff y tanciau eu storio mewn sied neu dŷ allan, rhaid gwneud yn siŵr nad oes boeleri, olewau, tanwydd, paent na saim yn y lleoliad.





Os caiff y tanciau eu storio dan do, mae angen brics aer sy’n caniatáu llif aer da.

Ni ddylid cludo tanciau Ocsigen Hylifol drwy ddrysau caeedig mewn adeiladau fel tai neu lifftiau.



Weithiau, mae'r tanciau mawr yn cronni gwasgedd, ac mae'n gallu rhyddhau stêm hylifol a fyddai'n edrych fel niwl. Mae'r niwl yn cynnwys lefel uchel o ocsigen. Os caiff y tanciau eu storio mewn pabell, yn eich cartref, mewn carafán neu mewn adeilad sy'n cynnwys dodrefn meddal, gall y niwl gynyddu'r risg o dân.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Baywater Healthcare neu trafodwch hyn gyda'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

This booklet is also available in English

24/747/UK-MAY24 v1